Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

# Crynodeb o Ymatebion ac Ymatebion Llywodraeth Cymru i Ymgynghoriad

## Canllawiau Statudol ar ddyletswydd ymgymerwyr carthffosiaeth i gysylltu eiddo â'r system garthffosiaeth gyhoeddus dan Adran 101A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991

Dyddiad cyhoeddi: **Gorffennaf 2014**

Y Gangen Ddŵr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: water@wales.gsi.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2014
ISBN digidol 978 1 4734 1452 5
WG22063

## Cyflwyniad

### Trosolwg

Mae’r rhan fwyaf o’r eiddo sydd yng Nghymru wedi eu cysylltu â’r system garthffosiaeth gyhoeddus, ond amcangyfrifir bod 7% ohonynt yn dibynnu ar systemau preifat sy’n cael eu gweithredu’n annibynnol.

Os nad yw’r systemau hyn yn gallu cynnig ateb boddhaol, tymor hir, a’u bod yn cael neu’n debygol o gael effaith niweidiol ar yr amgylchedd neu amwynder, un dewis yw i’r perchnogion wneud cais am garthffos gyhoeddus o dan y darpariaethau carthffosiaeth tro cyntaf yn adran 101A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

### Diben yr Ymgynghoriad

Nod yr ymgynghoriad oedd cael barn ar y Canllawiau Statudol a osodwyd gan Weinidogion Cymru ar ymgymerwyr carthffosiaeth i gysylltu eiddo â’r system garthffosiaeth gyhoeddus o dan adran 101A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991”.

Yn nrafft ymgynghorol y canllawiau amlinellir y dewisiadau ar gyfer sicrhau system garthffosiaeth gynaliadwy i eiddo sydd heb eu cysylltu â’r system garthffosiaeth gyhoeddus. Mae’n darparu gwybodaeth i helpu deiliaid, meddianwyr a pherchnogion eiddo i benderfynu a yw adran 101A yn cynnig yr ateb cywir yn eu hamgylchiadau. Mae hefyd yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau’r ymgymerwyr carthffosiaeth, y rheoleiddwyr amgylcheddol (Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyfoeth Naturiol Cymru) a pherchnogion eiddo wrth gymhwyso adran 101A.

Mae’r canllawiau drafft yn disodli ac yn diweddaru’r canllawiau blaenorol a gyhoeddwyd gan Adran yr Amgylchedd a’r Swyddfa Gymreig yn 1996. Gwneir hyn i adlewyrchu’r fframwaith rheoleiddio a deddfwriaethol presennol ac i roi mwy o gymorth i randdeiliaid ddeall, ac os yw’n briodol, ddefnyddio darpariaethau adran 101A.

### Cyfnod a dosbarthiad yr ymgynghoriad

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o 12 wythnos a daeth i ben ar 6 Mawrth 2014. Fe’i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru yn Gymraeg a Saesneg ac fe’i hanfonwyd i ystod eang o randdeiliaid.

### Ymatebion i’r Ymgynghoriad

Cawsom 13 o ymatebion i’r ymgynghoriad. Ceir rhestr ohonynt isod. Maent yn amrywio o wahanol sefydliadau, yn cynnwys cyrff cyhoeddus a statudol, busnesau, cynghorwyr ac Aelod Seneddol.

Rhestr ymatebwyr

Amroth Bay Holidays
Cynghorydd Sir Caergrawnt
Cyngor Defnyddwyr Dŵr
Cynghorydd Dosbarth Milton
Dŵr Cymru Welsh Water
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd ac Amgylcheddol, Cyngor Dosbarth De Sir Caergrawnt
ICE Cymru
Cyngor Plwyf Milton
Cyfoeth Naturiol Cymru
Ofwat
Dŵr Hafren Trent
Simon Hart AS, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Cynghorydd Dosbarth De Sir Caergrawnt

**Dadansoddiad o'r ymatebion**

Yn gyffredinol roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r angen i ddiwygio'r canllawiau statudol ac yn croesawu nod Llywodraeth Cymru i wneud y canllawiau'n gliriach a haws eu defnyddio.

Er enghraifft, dywedodd Ofwat, rheoleiddiwr economaidd y diwydiant dŵr i Gymru a Lloegr eu bod yn croesawu'r:

*"… bwriad i ddiweddaru / disodli'r canllawiau presennol sy'n dyddio'n ôl i'r adeg y cyflwynwyd adran 101A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr a'i fod bellach bron yn 18 oed."*

Yn ogystal â hyn dywedwyd:

*"…y bydd y canllawiau diwygiedig yn helpu i gyrraedd y nod o gael y canlyniadau gorau i'r amgylchedd, ymgeiswyr a'r rhai sy'n talu biliau dŵr a charthffosiaeth yn gyffredinol."*

Ym marn Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru (ICE) roedd y canllawiau:

*"wedi eu hysgrifennu'n glir ac yn dda ac yn cynnig cyngor addas"*

Cafwyd rhai sylwadau ynglŷn â'r angen i egluro sut i ddefnyddio'r canllawiau ar sail ardal. Teimlai ymgyngoreion y dylid dweud yn union ble mae'r canllawiau statudol yn berthnasol, a pha ymgymerwyr carthffosiaeth a fyddai'n cael eu heffeithio.

Gwnaed nifer o gyfeiriadau at wallau teipio a rhif yn y canllawiau drafft a ddosbarthwyd ar gyfer ymgynghori.

Teimlai'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ymgysylltu â'r gymuned a rhoi gwybodaeth iddi ym mhroses adran 101A. Teimlent y dylai Llywodraeth Cymru ystyried:

*"Nodi bod disgwyl ymgysylltu da â'r gymuned i asesu awydd cymuned i gysylltu â'r carthffosydd cyhoeddus newydd. Byddai hyn yn cyfrannu at asesu pa mor gost effeithiol yw'r prosiect."*

Cafodd y mater o ddiffinio ac egluro ystyr y term "adeiladau" o fewn adran 101A ei godi gan y rhan fwyaf o ymgyngoreion. Teimlai nifer ohonynt, yn cynnwys Amroth Bay Holidays, Simon Hart AS a nifer o gynghorau yng Nghaergrawnt, y dylai'r canllawiau egluro sut y dylid cymhwyso adran 101A i garafanau, parciau carafanau, cartrefi symudol neu ystafelloedd dydd a ddefnyddir fel cartrefi parhaol ar hyd y flwyddyn. Teimlai ymatebwyr y dylai eiddo sy'n cynnwys strwythurau o'r fath gael hawl i ymgeisio, gan eu bod yn cynhyrchu carthffosiaeth ddomestig, ac felly, mewn rhai achosion, gellid cyfiawnhau eu cysylltu â'r rhwydwaith garthffosiaeth gyhoeddus.

Mae'r sylwadau yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried egluro rolau a chyfrifoldebau perchnogion systemau carthffosiaeth breifat, o safbwynt yr angen i gynnal a diogelu'r amgylchedd cyn ymgeisio ac yn ystod y cyfnod yn arwain at gysylltu â'r garthffos newydd. Hefyd awgrymwyd cynnwys siart llif i egluro hyn.

Cododd nifer o ymatebwyr y mater o egluro'r costau a ystyrid wrth werthuso cynlluniau a'r costau i unigolion gysylltu â charthffos newydd. Teimlid y gellid cael mwy o eglurder ynglŷn â phwy ddylai dalu'r costau a sut y maent yn cael eu hystyried.

Yn ogystal â hyn roedd nifer o ymatebion yn cynnwys awgrymiadau manwl iawn i'w hystyried wrth ysgrifennu'r canllawiau terfynol er mwyn ceisio lleihau amwyster.

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Sylwadau a dderbyniwyd a newidiadau i'r Canllawiau Statudol yn dilyn yr ymgynghoriad**

Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i ddiolch i bawb a ymatebodd i'n hymgynghoriad ar y 'Canllawiau Statudol ar y ddyletswydd sydd ar ymgymerwyr carthffosiaeth' i gysylltu eiddo â'r system garthffosiaeth gyhoeddus o dan Adran 101A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991'. Rydym wedi ystyried y sylwadau a'r farn a fynegwyd yn yr ymatebion wrth ddiwygio'r ymgynghoriad drafft i lunio'r ddogfen derfynol.

Rydym yn falch fod ymgyngoreion wedi croesawu'r canllawiau diwygiedig ac yn cefnogi ein barn y dylent fod yn fwy cyfredol a chlir.

Rydym yn cydnabod y dylid sicrhau eglurder ynglŷn â'r union ardal ddaearyddol a'r ymgymerwr(wyr) carthffosiaeth y mae'r canllawiau statudol hyn yn berthnasol iddynt. Felly rydym wedi cynnwys hyn yn y canllawiau newydd ac wedi newid y geiriad yn briodol.

Rhoddwyd sylw i unrhyw wallau teipio a rhif yn y ddogfen.

Rydym yn cytuno fod ymgysylltu da â'r gymuned yn rhan bwysig o broses adran 101A ac rydym wedi cynnwys paragraff yn amlinellu'r pwysigrwydd hwn o fewn y cyflwyniad.

Rydym yn cytuno bod y ffaith nad yw'r term 'adeiladau' wedi ei ddiffinio o safbwynt proses ymgeisio adran 101A wedi achosi dryswch ac anghydraddoldeb. Mae Adran 101A(4(b) o'r Ddeddf yn caniatáu i'r canllawiau ymwneud ag unrhyw fater arall y mae Gweinidogion Cymru'n ystyried yn berthnasol i unrhyw achos a sut y rhoddir sylw i unrhyw fater o'r fath.  Felly rydym wedi darparu canllawiau ychwanegol yn y maes hwn, yn arbennig o safbwynt cartrefi symudol a strwythurau tebyg i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried wrth ddatblygu unrhyw gynllun adran 101A.

Rydym wedi ystyried y sylwadau ynglŷn ag eglurder rôl perchnogion eiddo ym mhroses adran 101A. Gwnaed newidiadau o fewn y canllawiau i dynnu sylw at eu rolau a beth a ddisgwylir gan ymgeiswyr yn ystod y broses. Mae hyn yn cynnwys ychwanegu siart llif sy'n amlinellu'r amserlenni disgwyliedig a rolau pob parti dan sylw.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod y rhai hynny sy'n delio â phroses Adran 101A yn awyddus i gael eglurhad pellach ynglŷn â sut y dylid ystyried cydbwyso costau trwy'r cais. Mae pwyntiau pellach wedi eu cynnwys yn y canllawiau i Broses Asesu Adran 5.

**Camau Nesaf**

Rydym wedi cyhoeddi'r canllawiau diwygiedig, sy'n ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad yr un pryd â'r crynodeb hwn. Mae deddfwriaeth newydd ar ffurf Deddf Dŵr 2014 newydd fynd trwy'r Senedd. Mae'r Ddeddf hon yn cynnwys darpariaethau sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru newid y weithdrefn Adran 101A bresennol. Yn benodol, gellir defnyddio'r rhain i ddiwygio'r broses apêl. Pan fydd y darpariaethau hyn yn dechrau cael eu gweithredu byddwn yn diwygio'r canllawiau hyn.